**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JB/2491/25

At:
Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Copi at:
Brif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru
Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

24 Tachwedd 2025

Annwyl Gydweithwyr

Heddiw, mewn Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, rwy'n cyhoeddi manylion Setliad Refeniw a Chyfalaf Dros Dro Llywodraeth Leol ar gyfer 2026-27 (“y Setliad”) i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol (“Awdurdodau”) yng Nghymru. Mae’r datganiad hwnnw ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Yn 2026-27, bydd yr Awdurdodau yn cael £6.4bn drwy Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru ac ardrethi annomestig, i'w wario ar ddarparu gwasanaethau allweddol. Mae hyn yn cynnwys cyllid pellach o £5.5m i sicrhau nad oes unrhyw awdurdod lleol yn cael cynnydd o lai na 2.3%. Mae hyn yn golygu y bydd y cyllid refeniw craidd ar gyfer llywodraeth leol yn 2026-27 yn cynyddu £169m (2.7%), ar sail tebyg at ei debyg, o'i gymharu â'r flwyddyn bresennol.

Rydym wedi sicrhau bod y cyllid ychwanegol o £97m a ddyrannwyd yn ystod 2025-26 ar gyfer y sector cyhoeddus i dalu'r cynnydd yng nghostau Yswiriant Gwladol Llywodraeth y DU, a'r £37m i fodloni dyfarniadau cyflog blwyddyn lawn athrawon, Cydlynwyr ADY a staff yr awdurdodau lleol wedi'u cynnwys yn y cyllid sylfaenol ar gyfer 2026-27. Yn ogystal â chynnydd o 2% ar gyfer chwyddiant cyffredinol, rydym hefyd wedi ychwanegu 0.2% arall ar gyfer chwyddiant cyflogau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.wales
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae ein hymrwymiad ar y cyd i'r cyflog byw gwirioneddol ym maes gofal cymdeithasol yn rhan bwysig o'n dull o ymdrin â gofal cymdeithasol a phartneriaeth gymdeithasol. Fe wnaethom ymrwymo i ariannu'r gwahaniaeth rhwng y cyflog byw cenedlaethol a'r cyflog byw gwirioneddol. Argymhellodd y gwerthusiad annibynnol diweddar o'r cyflog byw gwirioneddol y dylid clustnodi'r cyllid hwn. Mae'r setliad dros dro yn cynnwys llinell sylfaen o £91.5m, a ychwanegwyd mewn blynyddoedd diweddar, i adlewyrchu'r ymrwymiad parhaus hwn. Nid wyf o'r farn y byddai cymryd cyllid allan o'r setliad at ddibenion grant wedi'i neilltuo yn briodol o ystyried cyfrifoldeb llywodraeth leol am ofal cymdeithasol, ac ni fyddai chwaith yn ysbryd y cytundeb partneriaeth strategol y gwnaethom gytuno arno yn gynharach yn y flwyddyn. Rwy'n disgwyl i'r cyllid hwn gael ei ddefnyddio at y diben bwriadedig, sef cefnogi'r broses o ddarparu'r cyflog byw gwirioneddol o £13.45 i weithwyr gofal cymdeithasol yn unol â'n hymrwymiad ar y cyd i'r gweithlu hanfodol hwn.

Cyhoeddwyd ail gam ein cyllideb ddrafft blwyddyn ar 3 Tachwedd. Er bod y dull o ailddatgan cyllidebau adrannol presennol, wedi'u cynyddu yn unol â rhagolygon ar gyfer chwyddiant, yn caniatáu ichi gynllunio gyda rhywfaint o sicrwydd, dim ond dechrau proses y gyllideb yw hyn. Ein huchelgais yn bendant yw sicrhau Cyllideb Derfynol sy'n defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael ar gyfer 2026-27 ac sy'n diogelu swyddi a gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen, heb arwain at gynnydd mawr yn y dreth gyngor. Mae'r Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg wedi bod yn glir ei bod yn gydgyfrifoldeb ar y Senedd i basio Cyllideb Cymru ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda phob plaid i wneud hynny.

Rwy'n ymwybodol bod Llywodraeth Leol mewn sefyllfa unigryw oherwydd y rheolau y mae'n rhaid iddi eu dilyn wrth bennu cyllidebau, a byddaf yn parhau i weithio'n agos gyda chi i wneud popeth y gallwn i gryfhau eich pŵer gwario gymaint â phosibl.

2026-27 yw'r ail flwyddyn y bydd ardrethi a ddargedwir yn cael eu talu fel rhan o'r Setliad. Mae swm o £117k wedi'i ddidynnu cyn pennu'r ffigur Cyllid Allanol Cyfun ("AEF"). Mae'r cyfanswm hwn yn cael ei dalu i Awdurdodau perthnasol y Fargen Ddinesig honno (sef Cyngor Abertawe, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot). Mae'r ffigur cyfatebol wedi'i dalu i mewn i'r pwll ardrethi annomestig a'i ddosbarthu drwy'r setliad mewn blynyddoedd blaenorol.

Yn ogystal â'r Setliad craidd, rwy'n cyhoeddi gwybodaeth ddangosol ar grantiau refeniw a chyfalaf penodol a gynlluniwyd ar gyfer 2026-27, sy'n cyfateb i dros £1.3bn ar gyfer grantiau refeniw a thros £1.08bn ar gyfer grantiau cyfalaf yn ystod y cyfnod dros dro hwn.

Mae'r gwaith o leihau'r baich gweinyddol ar yr Awdurdodau, yr ymrwymwyd iddo fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu wedi parhau. Er nad ydym wedi trosglwyddo unrhyw grantiau pellach i'r Setliad ar gyfer 2026-27, mae gwaith wedi'i gwblhau neu'n mynd rhagddo mewn meysydd grant eraill i symleiddio faint o fonitro sydd ar grantiau, er mwyn sicrhau nad yw Llywodraeth Cymru ond yn casglu'r wybodaeth y mae arni hi a'r Awdurdodau ei hangen, i ddeall effaith a chanlyniadau rhaglenni grant. Mae hyn wedi cynnwys lleihau amlder ffurflenni monitro, symleiddio ffurflenni cais am grant a gosod meini prawf graddedig ar gyfer achosion busnes yn dibynnu ar faint a risg rhaglenni neu brosiectau. Byddwn yn parhau i weithio gyda chi i ddeall effaith y newidiadau i grantiau hyd yn hyn, er enghraifft cyfuno grantiau addysg, i lywio cam nesaf y gwaith hwn.

Bydd ein trefniadau ardrethi annomestig ar gyfer 2026-27 yn cael eu pennu fel rhan o'r paratoadau ar gyfer y Gyllideb Derfynol. Bydd hyn yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol yn dilyn Cyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU a chanlyniad yr ailbrisio ardrethi annomestig nesaf, a fydd hefyd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn adlewyrchu'r

disgwyliad diofyn arferol y bydd refeniw ardrethi annomestig (NDR) yn cael ei gynnal yn unol â chwyddiant CPI. Mae'r setliad dros dro yn cynnwys swm llawn ein hamcangyfrifon gweithio presennol o'r Swm Dosbarthadwy NDR, yn hytrach na rhagdybio cynnydd o 2%.

Rwy'n cydnabod yn llawn yr heriau y mae Awdurdodau wedi'u hwynebu ac yn parhau i'w hwynebu. Mae ymateb i'r heriau hynny wedi golygu cryn dipyn o waith caled a gwydnwch ar draws y sector gan swyddogion ac aelodau etholedig dros sawl blwyddyn.

Nid wyf o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru bennu lefel fympwyol o gynnydd yn y dreth gyngor waeth beth fo'r amgylchiadau neu ddewisiadau lleol. Bydd angen i'ch Awdurdodau ystyried yr ystod lawn o ffynonellau cyllido sydd ar gael, yn ogystal â'r pwysau rydych yn eu hwynebu, ac rwy'n eich annog i barhau i bwyso a mesur yn ofalus effaith y cynnydd ar gyllid aelwydydd gyda cholli cefnogaeth a gwasanaethau. Bydd fy nghydweithwyr a minnau yn parhau i weithio gyda chi i ystyried set o opsiynau ymarferol i gryfhau'r pŵer gwario sydd ar gael ar adeg pennu'r gyllideb, ac rydym yn ymgynghori â Chyfarwyddwyr Cyllid. Gwn y byddwch chi fel Arweinwyr, aelodau etholedig a swyddogion ar hyd a lled Cymru yn ymdrechu i ddod o hyd i ffyrdd o wneud y defnydd gorau o adnoddau i wneud y gwahaniaeth mwyaf i'ch cymunedau.

Rydym i gyd yn ymwybodol o'r pwysau sydd ar aelwydydd. Yn 2013-14, fe wnaethom fel gwlad ddewis diogelu aelwydydd agored i niwed ac incwm isel ledled Cymru drwy gynnal hawliau llawn i gymorth gyda biliau'r dreth gyngor, o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor - dewis sydd wedi cael ei wneud bob blwyddyn ers mwy na degawd. Mae'r ffaith fod gennym gynllun cenedlaethol sydd wedi'i deilwra yn golygu bod y cymorth hwn yn cael ei dargedu at y rhai sydd ei angen fwyaf. Yn 2024-25, roedd hyn yn golygu bod bron i 256,500 o aelwydydd agored i niwed ac incwm isel – tua un o bob pump o aelwydydd – wedi elwa ar ostyngiad yn eu treth gyngor. Yn unol â'n pwyslais ar y cyd ar helpu aelwydydd, byddwn yn parhau i gynnal y cyllid sylfaenol o £244m ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn y Setliad.

Roedd y Gyllideb ddrafft yn nodi'r sefyllfa o ran cyllid cyfalaf. Fel rhan o'n dull o gynyddu cyllidebau yn unol â chwyddiant, mae'r cyllid cyfalaf cyffredinol ar gyfer awdurdodau lleol wedi cynyddu o £200m i £204m. Bydd y cyllid ar gyfer y Grant Gwres Carbon Isel ar gyfer 2026-2027 bron yn £31m. Rydym wedi cael rhai enghreifftiau gwych lle y gellir defnyddio'r cyllid hwn mewn prosiectau annibynnol neu fel rhan o raglenni cyfalaf ehangach i leihau ôl troed carbon ystad yr awdurdodau lleol a sicrhau arbedion refeniw wrth wneud hynny.

Mae’r *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol* drafft a’r tablau cysylltiedig sy’n cynnwys manylion y Setliad yn ôl Awdurdod unigol hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r tablau hyn yn cynnwys dyraniadau Cyllid Allanol Cyfun (“AEF”) ar gyfer pob awdurdod unigol, sy'n cynnwys y Grant Cynnal Refeniw ac ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu. Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth am grantiau refeniw a chyfalaf sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2026-27. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei diweddaru ymhellach ar gyfer y setliad terfynol.

Mae cyhoeddi'r Setliad ddiwedd mis Tachwedd wedi ein galluogi i ddefnyddio ffigurau'r sylfaen drethu ddiweddaraf ar gyfer 2026-27, sy'n golygu na ddylai fod fawr o newid, os o gwbl, rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol oherwydd diweddariadau i'r sylfaen drethu. Er na allaf roi sicrwydd na fydd unrhyw newidiadau eraill rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol, nid wyf yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r fethodoleg nac i'r data sy'n sail i ddosbarthu'r Setliad hwn.

Mae fy nghyhoeddiad heddiw yn lansio cyfnod 6 wythnos a hanner o ymgynghori ffurfiol ar y Setliad ar gyfer 2026-27. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech sicrhau bod eich ymateb yn cyrraedd erbyn **dydd Mercher, 7 Ionawr 2026** fan bellaf. Dylid anfon pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn at:

LGFPSettlement@llyw.cymru

Gwahoddir sylwadau am yr effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n niweidiol) y byddai'r Setliad arfaethedig yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn ogystal, rydym yn gwahodd sylwadau ynghylch a ellid llunio'r Setliad arfaethedig, neu ei ddiwygio, er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu lai o effeithiau niweidiol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb.

Mae'n bosibl y caiff copïau o ymatebion eu rhoi yn llyfrgell Llywodraeth Cymru. Os ydych yn dymuno i'ch sylwadau aros yn gyfrinachol, dylech nodi hyn yn glir yn eich ymateb. Caiff hyn ei ystyried yng ngoleuni ein rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb sy'n dod i law erbyn y dyddiad cau cyn gwneud y penderfyniad terfynol a'i gyhoeddi.

Yn unol â'r arfer, atgoffir eich Awdurdodau o'r gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a hefyd y dyletswyddau cydraddoldeb penodol lle y bônt yn gymwys. Dylid asesu effaith yr opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai hyn lywio unrhyw benderfyniadau terfynol. Yn ogystal, byddem hefyd yn disgwyl ichi ystyried effaith yr opsiynau cyllidebol ar blant a phobl ifanc.

Rhaid i'r Awdurdodau gymryd i ystyriaeth eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg wrth baratoi cynlluniau ar gyfer 2026-27.

Yn gywir



**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
Cabinet Secretary for Housing and Local Government